CYMDEITHAS BOB OWEN

# Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd

**Cymdeithas Bob Owen**
Tâl aelodaeth
£3 y flwyddyn i'r Ysgrifennydd.

**SWYDDOGION**

Llywydd:
Dr. E. D. Jones
Cadeirydd:
D. Tecwyn Lloyd
Ysgrifennydd:
Richard H. Lewis
40 Maes Ceiro,
Bow Street, Dyfed.
(Aberystwyth 828102)
Trysorydd a Threfnydd Busnes:
John Dilwyn Williams,
Glan Ffrwd, Pentre-uchaf,
Pwllheli, Gwynedd.
(Pwllheli 613480)
Golygydd:
John Roberts Williams,
18 Minffordd, Llanrug, Caernarfon.
(Caernarfon 3593)
**Cyhoeddir Y Casglwr gyda chymorth ariannol Cyngor Celfyddydau Cymru.**

## YN EISIAU

*Gwyn Thomas (golygydd): Yr Aelwyd Hon, Llyfrau'r Dryw, 1970.*
*William Davies, 17 Maes Meugan, Rhuthun, Clwyd, LL15 1YH. Ffôn: (08242) 3897.*

# Tri chwarter canrif y Mormoniaid Cymreig

GAN MLYNEDD a hanner i'r Hydref yma ymwelodd Brigham Young ag Owrtyn (Overton) yn hen sir y Fflint ar daith genhadol gyntaf y Mormoniaid i Gymru. Erbyn diwedd y flwyddyn roedd gan y Mormoniaid gant o aelodau yn y fro, ac mewn ugain mlynedd bedyddiwyd deng mil o Gymru.

Golygai cael eu bedyddio ei bod yn rhaid mynd i Ddinas y Llyn Halen, ac o ganlyniad i'r ymfudiad o Gymru mae rhai cannoedd o filoedd o Formoniaid a'u gwreiddiau yng Nghymru.

I ddathlu'r ganrif a hanner mae hanner cant o Formoniaid eisoes wedi cyrraedd Cymru. Y trefnydd yw Dr Ronald Dennis, awdur dwy gyfrol am y Mormoniaid Cymreig a gor-gor-ŵyr i Capten Dan Jones o sir y Fflint fu ar daith enbydus i Ddinas y Llyn Halen gyda Joseph Smith ac a ddychwelodd i genhadu yng Nghymru.

Bu cryn raen ar y genhadaeth oddeutu canol y ganrif ddiwethaf. Yn gyfan gwbl fe sefydlwyd oddeutu chwe ugain o eglwysi yng Nghymru ac fe gyhoeddwyd rhyw chwe ugain o gyfrolau Cymraeg gan gynnwys cylchgrawn y Mormoniaid, Utgorn Seion.

Ail-afaelwyd yn y genhadaeth Gymreig oddeutu chwe degau'r ganrif hon a chodi eglwys newydd ym Merthyr Tudful.

## YN EISIAU

*Cerddi Cerngoch.*
*Hanes Plwyf Llanwennog.*
*Hanes Plwyf Llanddewi Brefi, Dyffryn Aeron.*
*Joyce James, Brynog View, Felinfach, Llanbedr Pont Steffan, Dyfed, SA48 8AE.*

**Parhad o dudalen 1**

mae'n ymddangos ei fod ef ei hun yn byw mewn rhyw fath o garafan gyntefig yn ystod cyfnod yr adeiladu.

Mae lle i gredu hefyd fod Isaac Hughes yn arlunydd eithaf galluog, gan fod canfasau cefndir wedi eu darganfod gyda'r offer ffotograffig. Mae un o'r cefnioedd hyn wedi ei beintio ar ganfas, ac yn dangos golygfa o Fwlch Llanberis a Chastell Dolbadarn.

Mae'n debyg fod llawer o waith Isaac Hughes yn cael ei wneud yn ystod misoedd yr haf pan ddeuai'r ymwelwyr (eithaf cefnog bryd hynny) i'r ardal yn fuan ar ôl agor y rheilffordd o Gaernarfon yn niwedd yr 1860au.

*Mae un o'r lluniau yn dangos corrach — fawr talach na chadair — yn sefyll o flaen y canfas o Fwlch Llanberis. Wrth ei draed mae basged yn llawn llyfrau. Mae posibilrwydd mai trafeiliwr yn gwerthu llyfrau oedd. Tybed a all rhai o ddarllenwyr 'Y Casglwr' roi gwybodaeth am rywun o'r fath?*

Gobaith Mike Kerr yw cael cartref sefydlog i'r lluniau yn Llanberis, ac y mae'n awyddus i gyhoeddi llyfr am Isaac Hughes gan gynnwys nifer o'r casgliad hynod o luniau. Os oes unrhyw un â gwybodaeth am Isaac Hughes, neu am ffotograffwyr eraill o'r cyfnod cynnar hwn yn hanes y grefft, byddai'n ddiddorol cael gwybod.




*Byddai Isaac Hughes yn mynd a'i 'magic lantern' ar deithiau trwy Ogledd Cymru. Wele un o'i bosteri.*

## AR WERTH

*22 cyfrol Geiriadur Prifysgol Cymru — A — Gofidiaith (1950-1968). Mymryn o farciau ar y rhifyn cyntaf, gweddill yn dda iawn. Punt yr un neu £15 am y cyfan. Cludiant ar ben hyn.*
*Ancient & Modern Bookshop, 84 Salisbury Street, Blandford, Dorset. DT11 7QE. Tel (0258) 455253 neu 455276 (Llun, Iau, Sadwrn).*

*Y Bywgraffiadur Cymreig hyd 1940, Llundain 1953 (gyda siaced lwch), £32.50.*
*Davies, D. T: Hanes Eglwysi a Phlwyfi Lleyn, Pwllheli 1910, £25.50*
*Lewis, E. T: North of the Hills (A History of the Parishes of Eglwyswen; Eglwyswrw; Llanfair Nantgwyn; Meline & Nevern) M 1972, £6.50*
*Lewis, E. T: Llanfyrnach Parish Lore c1969, M, £4.50*
*Richards, Robert: Cymru'r Oesau Canol. Wrecsam 1933, £8.00*
*Roberts, Gomer M: Hanes Plwyf Llandybie. Caerdydd 1939, £9.50*
*Gweithiau Eben Fardd. Cyhoeddwyd gan Hywel Tudur 1866, £5.00*
*Jones, T. Gwynn: Llenyddiaeth y Cymry, £3.00.*
*J. M. Jones, Brynawelon, Swyddffynnon, Ystrad Meurig, Ceredigion, Dyfed, SY25 6AL.*

*Caniadau John Morris Jones 1907; Caniadau Elfed 1909; Geraint ac Enid etc. Machreth 1908; Cofiant Ann Griffiths, Caledfryn 1908; Telynegion Maes a Môr, Eifion Wyn 1908; Telynegion Silyn a W. J. Gruffydd; Caneuon a Cherddi W. J. Gruffydd.*
*D. Williams, 77 Cherry Grove, Sgeti, Abertawe. Ffôn Abertawe 205172.*

*Nifer fawr o lyfrau Cymraeg a Chymreig — gormod o lawer i'w rhestru — y rhan fwyaf yn gofiannau, pregethau a gweithiau diwinyddol o'r 19 ganrif. Rhai cylchgronau hefyd. Os ydych yn chwilio am deitl arbennig neu am gasgliad helaethach, yna cysylltwch â Anne Till, 26 Maes Ceiro, Bow Street, Dyfed, SY24 5BG. Ffôn: Aberystwyth 820235 (ar ôl oriau gwaith).*

## RHODDION
## a mawr ddiolch

£10.00: E. Williams, Llanfairfechan; Dr. M. Evans, Cwmystwyth; Dienw, Caerdydd.
£7.00: J. O. Hughes, Llanrug; P. F. Tobin, Caerdydd.
£5.00: G. E. Roberts, Clynnog; Mrs N. Vaughan Jones, Penrhyndeudraeth; O. D. Roberts, Caerdydd.
£2.00: R. Williams, Waunfawr; E. P. Roberts, Manod; Miss K. O. Pritchard, Gilfach Goch; S. Emlyn, Caerdydd; Mrs H. A. Morris, Llangian; Mrs M. Hughes, Pentyrch; D. W. Rees, Pentyrch; M. Owen, Lewisham; G. D. Huws, Chwilog; T. Jones, Pentreuchaf; Mrs M. Jones, Y Bala; N. M. Pearson, Caerdydd; J. R. Jones, Nefyn; S. Davies, Glyn Ceiriog; D. C. Greenslade, Penybont-ar-Ogwr; D. B. James, Llandre; P. E. Owen, Abergele; W. R. Williams, Caergybi; Mrs M. James, Llangeitho; Mrs G. Carr, Bangor; J. G. Griffith, Abererch; G. E. Evans, Southampton; W. Jones-Parry, Caergybi.
£1.00: Parch T. Watts, Shrewsbury; Mrs A. Hughes, Dolwyddelan; D. G. Nicholas, Bae Colwyn.

## AR WERTH

*An Essay on the Welsh Saints, R. Rees (1836). Copi da, lliain gwreiddiol, ychydig rwyg yn y meingefn, £40.00*
*Wanderings in N. Wales. T. Roscoe (1844). Clawr lledr, euro, copi da, £60.00*
*Llawlyfr y Llais, D. W. Lewis (1893). Exercises in Voice Production. R. Dunstan (1896), £4.00*
*Wales (The Story of the Nations), O. M. Edwards, £6.00*
*A Short History of Wales, O. M. Edwards, 1909, £4.00*
*History of the Puritan Movement in Wales, 1639-1653, T. Richards (1920), £6.00*
*A Tour of the Hebrides, Johnson & Boswell (1930) (fel newydd), £5.00*
*Highways & Byways in W. Highlands, S. Gordon (1949) (fel newydd), £8.00*
*The Welsh Woollen Industry, J. G. Jenkins (1969), £8.00 + Cludiad.*
*R. Jones, Penrhiwfawr Isaf, Felindre, Llandysul, Dyfed, SA44 5XS. Tel: (0559) 370 040.*

*R. F. Skinner: Nonconformity in Shropshire, 1965.*
*T. Watts: William Worth (1576-1641), 1989, £3.50.*
*Beriah Gwynfe Evans: Diwygwyr Cymru, 1900.*
*T. Richards: Wales Under the Penal Code, 1662-1687.*
*Y Bibl Sanctaidd: Peter Williams, Caerfyrddin 1811.*
*Y Parch. T. Watts, 16 Shelton Road, Shrewsbury, Shropshire, SY3 8SS. Ffôn: (0743) 54104.*